# Mynychu eich apwyntiad trwy fideo

GIG CYMRU NHS WALES

## Mae Mae galwadau fideo yn gyfleus ac yn hawdd i ddefnyddio

Yn hytrach na theithio teithio i'ch apwyntiad, byddwch chi'n mynd i mewn i'r ardal aros ar-lein, gan ddefnyddio'r ddolen isod.

Bydd y gwasanaeth yn derbyn hysbysiad eich bod wedi cyrraedd, a bydd y darparwr yn ymuno â'ch galwad pan fyddwn nhw'n barod.

Nid oes angen creu cyfrif.

Mae galwadau fideo yn ddiogel ac mae eich preifatrwydd wedi'i ddiogelu.



## Sut allai'i gael mynediad i fy apwyntiad fideo?

Ewch i:

## Beth sydd ei angen arnaf i wneud galwad fideo?

- **Dyfais** ar gyfer gwneud fideoalwad, e.e. ffôn clyfar, tabled neu gyfrifiadur gyda camera a meicroffon (yn aml wedi'u cynnwys mewn gliniaduron).
- **Cysylltiad dibynadwy â'r rhyngrwyd** (gwifrau, WiFi neu ddata symudol). Os gallwch wylio fideo ar-lein, dylech chi allu gwneud fideoalwad.
- **Ardal breifat, wedi'i goleuo'n dda** ar gyfer eich ymgynghoriad, lle na fydd unrhyw beth yn torri ar eich traws.
- Defnyddiwch y fersiwn diweddara o **Chrome**, **Safari** neu **Edge** i gael y profiad gorau yn ystod y galwad.

| Google Chrome | Apple Safari | Microsoft Edge |
|---|---|---|
| Windows, Android, macOS | macOS, iOS, iPadOS | Windows |

Gweler tudalen dau am ragor o wybodaeth ar sut i wneud fideoalwad

## Beth sydd angen i mi ei wybod?

### A yw'n ddiogel / gyfrinachol?

Mae gennych eich ystafell fideo breifat eich hun sydd ond ar agor i ddarparwyr awdurdodedig.

Nid oes unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei nodi yn cael ei storio.

### Faint mae fideoalwad yn ei gostio?

Mae'r fideoalwad yn rhad ac am ddim heblaw am eich defnydd o'r rhyngrwyd.

**Awgrym!** Os gallwch chi, cysylltwch â rhwydwaith Wi-Fi er mwyn osgoi defnyddio'ch data symudol.

### Faint o ddata rhyngrwyd y byddaf yn ei ddefnyddio?

Dydy'r alwad fideo ddim yn defnyddio data pan fyddwch chi'n aros am rywun i ymuno. Pan fydd yr alwad yn cysylltu, mae'n defnyddio'r un faint o ddata a Skype® neu Facetime®.

## Sut mae gwneud fy fideoalwad?

**1.** Agorwch eich porwr gwe a theipiwch gyfeiriad gwe'r gwasanaeth yn y bar cyfeiriad (nid y blwch chwilio).

**2.** Pan fyddwch chi'n barod:

- Cliciwch y botwm **Start Video call**, neu

  Start video call

  Cliciwch **Enter Waiting Area**.

  **Enter Waiting Area**

**3.** Os gofynnir i chi, gadewch i'ch porwr gael mynediad i'ch camera a'ch meicroffon.

**4.** Rhowch eich manylion, ticiwch y blwch i gytuno â'r Telerau ac Amodau, a dechreuwch eich galwad.

**5.** I ddod â'r alwad i ben, cliciwch **Leave**.



**Awgrym!** I ddatrys problemau cyffredin, ail-lwythwch y dudalen yn eich porwr.

**Awgrym!** Gwnewch alwad prawf cyn eich apwyntiad i wirio bod popeth yn gweithio'n iawn.

**1. cliciwch y botwm Test call:**

Test call

**2.** Os gofynnir i chi, gadewch i'ch porwr gael mynediad i'ch camera a'ch meicroffon. Bydd y system yn gwirio bod gennych bopeth yn ei le (cysylltiad â'r rhyngrwyd, seinydd, meicroffon a fideo).

## Beth ddylwn i ei wneud os nad yw rhywbeth yn gweithio?

Ymweld https://wales.nhs.attendanywhere.com/troubleshooting

### Rhagor o wybodaeth

induction
Attend Anywhere